

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Astudiaeth achos

# Capital Network Solutions Limited

## Cwmni sy'n arbenigo mewn diogelwch TG yn defnyddio cymorth gan Lywodraeth Cymru i gynllunio ar gyfer y dyfodol

**Ers cael ei sefydlu gan Mark Edwards ym 1996, mae Capital Network Solutions wedi tyfu'n raddol drwy ddatblygu enw da fel cwmni sy'n cynnig siop un stop dibynadwy ar gyfer cymwysiadau TG masnachol a gwasanaethau cymorth a reolir. Mae'r cwmni bellach ar flaen y gad yn y diwydiant seiberddiogelwch gyda nifer fawr o gwsmeriaid yn y sector preifat a swyddfeydd yn y Barri ac ym Mryste.**

Mae Capital Network Solutions, sy'n un o Bartneriaid 'Premier' CISCO, yn gallu cynnig y safon aur o ran caledwedd. Golyga hyn mai nhw yw'r darparwr gwasanaeth TG y mae'r rhan fwyaf o fusnesau ar draws yn DU yn ei ddewis wrth chwilio am y datrysiad gorau ar gyfer pob rhwydwaith menter a system rheoli data.

Wrth i seiberddiogelwch gael mwy o sylw ar lefel fasnachol, mae Capital Network Solutions wedi datblygu'n un o nifer fach o gwmnïau yng Nghymru sy'n gallu cynnig gwasanaeth ardystio a reolir yn llawn ar gyfer cynllun Hanfodion Seiber Llywodraeth y Deyrnas Unedig, drwy fynd i'r afael â phum maes allweddol fel mynediad, rheolaeth a ffurfweddiad. Amcangyfrifir y gall busnes leihau ei risg o ymosodiad seiber hyd at 80% unwaith y mae wedi'i ardystio.

Mae'r ardystiad hwn yn orfodol er mwyn gallu ymgeisio am nifer o gontractau Llywodraeth Leol a Chanolog. Yn ogystal, mae Capital Network Solutions yn aseswyr ac yn un o ddefnyddwyr cynnar y Cynllun Hanfodion Seiber, ac mae mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol.

Mae cyfarwyddebau Diogelu Data sydd ar y gweill gan yr UE, lle gallai cwmnïau wynebu dirwyon o hyd at 2% o drosiant byd-eang, yn golygu bod seiberddiogelwch wedi datblygu'n fater y mae angen ei drafod ar lefel bwrdd ar gyfer busnesau o bob maint.

Yn 2014, £200 biliwn oedd y gost ar gyfer delio â seiberdroseddu,

Astudiaeth achos

# Capital Network Solutions Limited




gyda dros 60% o fusnesau bach a chanolig yn dioddef ryw fath o dramgwydd diogelwch ar gost gyfartalog o £115,000. Mae'r ystadegau hyn wedi ysgogi cwmnïau llai o faint i roi ystyriaeth fwy difrifol i ddiogelwch eu systemau TG.

Er bod Capital Network Solutions yn delio'n rheolaidd â chleientiaid mawr, mae hefyd yn darparu gwasanaethau TG i helpu rhwydwaith o fusnesau yng Nghymru ochr yn ochr a'i fusnes byd-eang.

Mae'r cwmni'n cynnig datrysiadau rhagweithiol heb eu hail yng Nghymru ac mae ganddo restr hir o gwsmeriaid hirdymor sy'n cynnwys nifer o gwmnïau cyfyngedig cyhoeddus, cymdeithasau tai, busnesau gweithgynhyrchu, awdurdodau addysg a gorsafoedd teledu.

Dywedodd Sarah Edwards, Rheolwr Gyfarwyddwr Capital Network Solutions: "Fel cwmni, rydym wedi canolbwyntio ar fod yn wahanol i'n cystadleuwyr drwy ymateb yn gyflym i ddatblygiadau yn y diwydiant. Mae ein statws fel corff ardystio Hanfodion Seiber yn enghraifft berffaith o hyn.

"Mae ein tîm wedi tyfu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf a bellach mae gennym grŵp o beiriannwyr medrus sydd i gyd wedi'u hachredu'n llawn yn eu meysydd hwy o arbenigedd. Mae'r cymorth a gawsom gan Lywodraeth Cymru wedi bod o fudd mawr wrth ddatblygu ein gweithwyr.

"Rydym wedi cael cyfanswm o £30,000 i anfon pob aelod o'n tîm ar gyrsiau hyfforddi i sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu eu gwybodaeth. Roedd y rhaglen hyfforddi'n uniongyrchol gyfrifol am greu swyddi newydd wrth i ni dyfu ein busnes drwy ymgorffori gwasanaethau ychwanegol. Rydym yn disgwyl i hyn barhau wrth i ni ddatblygu ymhellach yn y dyfodol."

Mae'r cwmni bellach wedi cael achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl ac wedi datblygu cysylltiadau cryf â chyflenwyr lleol. Yn ogystal, mae Capital Network Solutions wedi defnyddio cymorth gan Lywodraeth Cymru i greu seiliwaith busnes cryf sy'n ei ganiatáu i weithredu yng Nghymru ac yn fyd-eang.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Llywodraeth Cymru.**

**Ebost:** businesssupport@wales.gsi.gov.uk
**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk
**Ffôn:** 03000 6 03000

**Dilynwch ni ar** @_busnescymru a / neu @buddsoddicymru

Ymunwch â'n grŵp LinkedIn

WG26964 / © Hawlfraint y Goron 2015